

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI474

Amseru: Unigol

Teitl: Cyfrannu at Gynhadledd Bord Gron Stamp Out Spiking Cymru a Diogelwch Economi'r Nos

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid

Crynodeb Gweithredol:

Mae cais gan Gyngor Sir Powys am rodd o £750 tuag at Gynhadledd Bord Gron Stamp Out Spiking Cymru a Diogelwch Economi'r Nos ar 12 Hydref 2026. Bydd yr arian y gofynnwyd amdano'n cyfrannu tuag at y gost o gyflwyno'r digwyddiad.

Bydd y digwyddiad yn dod â phartneriaid o bob cwr o ganolbarth a gorllewin Cymru at ei gilydd i wella ymwybyddiaeth o sbeicio, cryfhau arferion diogelu, hyrwyddo ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y dioddefydd, a chefnogi economi nos fwy diogel. Bydd y gynhadledd yn cynnwys siaradwyr a gydnabyddir yn genedlaethol, gan gynnwys Dawn Dines, Sylfaenydd a Phrif Weithredwr Stamp Out Spiking, Hayley Crawford KPM, Sylfaenydd Gofyn am Angela, a Figen Murray OBE, ymgyrchydd tu ôl i Gyfraith Martyn. Mae'r rhaglen yn cynnwys cyflwyniadau a thrafodaethau panel sy'n canolbwyntio ar ymagweddau partneriaeth tuag at greu amgylcheddau mwy diogel gyda'r nos, lleihau bregusrwydd, a hyrwyddo diogelu.

Mae'r gynhadledd yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddau, yn arbennig atal erledigaeth, cefnogi dioddefwyr, a chreu cymunedau mwy diogel drwy waith partneriaeth.

Argymhelliad:

Cymeradwyo rhodd o £750 i Gyngor Sir Powys tuag at Gynhadledd Bord Gron Stamp Out Spiking Cymru a Diogelwch Economi'r Nos, gan gydnabod ei chyfraniad tuag at ddiogelwch cymunedol, diogelu ac atal trosedd.

Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod:



Dyddiad: 06/10/26

SUMMARY DECISION SHEET

Purpose: Commissioner Decision – Ref.DLI474

Timing: Singular

Title: Donation contribution towards the Stamp Out Spiking Welsh Roundtable and Night Time Economy Safety Conference

Category of Decision / Business Area Impact: Finance

Executive Summary:

A request has been received from Powys County Council for a donation of £750 towards the Stamp Out Spiking Welsh Roundtable and Night Time Economy Safety Conference on 12 October 2026.

The requested funding will contribute towards event delivery costs.

The event will bring together partners from across Mid and West Wales to improve awareness of spiking, strengthen safeguarding practices, promote a victim-centred approach, and support safer night-time economies. The conference will feature nationally recognised speakers, including Dawn Dines, Founder and CEO of Stamp Out Spiking, Hayley Crawford KPM, Founder of Ask for Angela, and Figen Murray OBE, campaigner behind Martyn's Law. The programme includes presentations and panel discussions focused on partnership approaches to creating safer night-time environments, reducing vulnerability and promoting safeguarding

The conference aligns with the priorities of the Police and Crime Plan, particularly preventing victimisation, supporting victims, and creating safer communities through partnership working.

Recommendation:

To approve a donation of £750 to Powys County Council towards the delivery of the Stamp Out Spiking Welsh Roundtable and Night Time Economy Safety Conference, recognising its contribution to community safety, safeguarding and crime prevention.

Police and Crime Commissioner for Dyfed-Powys

I confirm I have considered whether or not I have any personal or prejudicial interest in this matter and take the proposed decision in compliance with the Nolan Principles for Conduct in Public Life.

The above request has my approval.

Signature: Dafydd Iwan

Date: 06/10/26